

## **Ymgynghori ar y Fframwaith Safonau Iechyd**

Byddem yn gwerthfawrogi sylwadau ar y fframwaith arfaethedig.

### **Ffurflen ymateb**

Enw Roz Owen

E-bost [Rosalind.owen@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:Rosalind.owen@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

Ffôn 0300 065 4649

Cyfeiriad – Adeilad Llywodraeth Cymru, Rhodfa Padarn, Aberystwyth,

Cod post SY23 3UR

Sefydliad (os yw'n berthnasol) **Cyfoeth Naturiol Cymru**

### **Dychwelyd y ffurflen hon**

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymatebion yw 26 Ionawr 2015

Anfonwch y ffurflen hon wedi'i llenwi atom drwy'r post neu dros e-bost

Ymgynghoriad ar y Fframwaith Safonau Iechyd

Y Gyfarwyddiaeth Nyrsio

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

[OCNOMailbox@wales.gsi.gov.uk](mailto:OCNOMailbox@wales.gsi.gov.uk)

Os ydych yn anfon eich ymateb dros e-bost, nodwch y canlynol fel testun eich neges e-bost: **Ymgynghori ar y Fframwaith Safonau Iechyd.**

### **Cyhoeddi ymatebion**

Mae'r ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhynggrwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech gadw eich atebion yn ddiennw, ticiwch yma

**Noder y daw'r ymgynghoriad i ben ar 26 Ionawr 2015**

### **Beth yw eich barn chi?**

Mae croeso i chi wneud unrhyw sylwadau y dymunwch ar y ddogfen hon, neu'r wybodaeth gefndir. Fodd bynnag, byddem yn croesawu sylwadau ar y cwestiynau canlynol yn arbennig:

## 1. A ydych yn cytuno â'r 7 thema ansawdd (ticiwch)?

Cytuno â'r rhan fwyaf	Cytuno/anghytuno â rhai	Anghytuno â'r rhan fwyaf
Ydw		

### Sylwadau.

Mae CNC yn croesawu'r Fframwaith Safonau Iechyd yn ei gyfanrwydd, ond mae'n cydnabod mai'r thema rydym yn y sefyllfa orau i gyfrannu ati yw 'cadw'n iach'. I'r perwyl hwn, dylid ystyried ein holl sylwadau o dan y thema hon oni bai y nodwn fel arall.

## 2. A ydych yn cytuno â'r safonau a nodir ar gyfer pob thema?

Cytuno â'r rhan fwyaf	Cytuno/anghytuno â rhai	Anghytuno â'r rhan fwyaf
ydw		

### Sylwadau.

#### **Cadw'n iach:**

##### **gwybod a deall y gofal, y cymorth a'r cyfleoedd sydd ar gael**

CNC yw'r rheolwr tir mwyaf yng Nghymru ac mae hwyluso mynediad i'r amgylchedd naturiol i wella iechyd corfforol a meddyliol yn allweddol i'n diben. Bwriad cyffredinol ein Cynllun Hamdden Awyr Agored a Galluogi Mynediad yw helpu rhagor o bobl i fod yn fwy actif yn yr awyr agored yn amlach. Bydd cyfateb yr angen i gael mynediad i fannau gwyrdd yn rhan allweddol o ddarparu'r nod hwn a bydd angen cydweithio â phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector yn ogystal â chymunedau ledled Cymru.

Bydd 'prospectws' o adnoddau, gan gynnwys mynediad hygyrch i wagle o safon yn yr awyr agored, cyfleusterau a gweithgareddau, yn offer pwysig i sefydliadau yng Nghymru mewn cyfnod lle mae adnoddau'n lleihau – gan sicrhau y defnyddir adnoddau i fod o fudd i'r bobl a'r cymunedau hynny sydd fwyaf anghenus.

##### **helpu pobl i ymgysylltu, cyfrannu a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn y gymdeithas**

Mae'r safon hon yn allweddol ar gyfer gwella ymdeimlad pobl o les yn gyffredinol, ond yn benodol am eu hymgysylltiad â'u cymuned a'u hamgylchedd lleol, yn ogystal â'u hymdeimlad o le. Mae CNC yn defnyddio'r amgylchedd naturiol fel catalydd er mwyn annog, ymgysylltu a rhoi cyfleoedd dysgu i bobl. Trwy hyn ein bwriad yw gwella ymdeimlad pobl o le, eu dealltwriaeth o'r amgylchedd a'u hymgysylltiad â'r amgylchedd. Dengys ymchwil bod hyn yn ei dro yn helpu pobl i werthfawrogi eu hunain a'u cymunedau. Bydd datblygu ymyriadau y mae modd eu darparu ar amrywiaeth o raddfeydd sydd yn ddigon deinamig i fod yn berthnasol yn lleol ac yn genedlaethol yn bwysig ar gyfer y safon hon. Mae mesur

cyfranogiad ac ymdeimlad o werth a pherchnogaeth yn anodd a bydd gweithio ar draws y sector iechyd cyhoeddus a sectorau perthnasol er mwyn datblygu ymyriadau y mae modd eu rheoli, eu cyflawni a'u mesur yn bwysig.

### **helpu pobl i fod yn iach, yn hapus a byw bywyd egnïol**

Mae angen i'r Safon hon gynnwys y sector gweithgarwch, rheolwyr tir ac Is-adrannau Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu strategaeth ar gyfer y meysydd gwaith hyn. Bydd datblygu a mesur ymyriadau sy'n targedu dewisiadau a chamau ffordd o fyw yn bwysig – mae newid mewn ymddygiad yn nod hirdymor ac nid yw'n un y mae modd ei gyflawni'n gyflym o fewn cyfnod amser arferol dogfen bolisi neu strategaeth. Dylid cydnabod hyn ym manylion y safon hon. Mae'r Arolwg o Hamdden yn yr Awyr Agored yng Nghymru dan arweiniad CNC ar hyn o bryd yn darparu data cyfoethog ar lefelau gweithgarwch hamdden yn yr awyr agored oedolion yng Nghymru. Mae hwn ar y cyd ag arolwg Chwaraeon Cymru o oedolion yn rhoi manylion lefelau'r gweithgarwch ar gyfer gweithgarwch dan do ac yn yr awyr agored. Mae'n bwysig y caiff elfennau craidd yr arolygon hyn eu cynnwys yn Arolwg Cenedlaethol newydd Cymru er mwyn i ni allu parhau i fesur ac adrodd ar lefelau gweithgarwch poblogaeth Cymru wrth ddefnyddio'r data a gasglwyd i ddatblygu ymyriadau newydd.

#### **• sicrhau bod plant yn cael cychwyn iach mewn bywyd**

Mae CNC yn chwarae rôl actif wrth hwyluso addysg a dysgu i blant o bob oed trwy ddefnyddio'r amgylchedd naturiol i ddarparu gweithgarwch cwricwlaidd craidd. Mae dysgu trwy chwarae yn y Cyfnod Sylfaen yn cynorthwyo plant, er enghraifft, i ddatblygu sgiliau echddygol a phrofi'r awyr agored mewn ffordd nad ydynt efallai wedi'i brofi o'r blaen. Mae sicrhau bod gan blant fynediad i ddŵr glân, aer glân, cysgod ac nad ydynt mewn perygl o ddiodeff perygl llifogydd i gyd yn agweddau pwysig ar y safon hon. Mae CNC yn chwarae rôl bwysig o ran ei hwyluso a'i ddarparu ledled Cymru – o ddylanwadu ar gynllunio i blannu coed mewn trefi a chynlluniau draenio trefol cynaliadwy i sicrhau y cedwir at y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn y dalgylchoedd hynny sydd mewn perygl o fethu. Bydd angen mewnbwn aml-asiantaeth i ddarparu'r safon hon mewn amrywiaeth o ymyriadau ar raddfa fach a mawr. Byddai modd ymestyn y safon isod ynghylch 'gweithleoedd iach a diogel' i gynnwys manau addysg (wedi'i hanelu at nid yn unig y rheini sy'n gweithio yno, ond y plant sy'n bresennol)

#### **• sicrhau bod systemau ar waith i nodi a mynd i'r afael â phroblemau iechyd cyhoeddus o bwys**

Mae gan CNC fecanweithiau ar waith i roi gwybod i gydweithwyr yn y sector iechyd cyhoeddus am ddigwyddiadau llygredd amgylcheddol a allai effeithio ar iechyd cyhoeddus. Rydym hefyd yn darparu gwasanaeth ymateb i ddigwyddiadau ansawdd aer (gan gynnwys monitro) ar gyfer digwyddiadau a allai effeithio'n sylweddol ar iechyd cyhoeddus. Dylid cydnabod mecanweithiau presennol mewn rôl y tu allan i'r Fframwaith ac amlygu unrhyw waith datblygu yn unol â hynny.

#### **• hyrwyddo gweithleoedd iach a diogel**

Gweler y pwynt uchod

#### **• hyrwyddo iechyd a lles staff**

Awgrymwn ymestyn y safon hon i gynnwys plant sy'n mynd i sefydliadau addysg fel y nodir yn y sylw uchod.

### **3. A oes unrhyw newidiadau eraill yr hoffech eu gwneud i'r Fframwaith Safonau Iechyd?**

#### **Sylwadau.**

Mae tudalen 2 yn cyfeirio at gyd-gynhyrchu a gwasanaethau cyhoeddus – mae cyfle yma i herio'r gwasanaethau iechyd i chwilio am wasanaethau cyhoeddus newydd i weithio gyda nhw. Yn enwedig y rheini sy'n rhan o ddarparu safleoedd, cyfleoedd a chyfleusterau yn yr amgylchedd naturiol a mannau hygyrch o safon lle gall pobl "gyfrannu'n llawn at eu hiechyd a'u lles eu hunain" (fel y cyfeiriwyd ato ar dudalen 3 o dan 'Diben')

Nid yw Thema 2 yn cydnabod yr angen am amgylchedd iach heb lygredd a gwastraff peryglus.

### **4. A hoffech wneud unrhyw sylwadau eraill?**

Bydd angen cynllun monitro a gwerthuso ar y Fframwaith hwn y mae modd ei gyflawni ar amrywiaeth o lefelau. Bydd angen i sefydliadau bach yn ogystal â chyrff mawr y sector cyhoeddus ddangos eu cyfraniad at y nodau ar lefel Cymru. Dylid datblygu unrhyw broses fonitro ar y cyd â phartneriaid allweddol, a dylid defnyddio'r dull cyfrifo seiliedig ar ganlyniadau a fydd yn helpu i ddweud yr hanes y tu ôl i'r gwelliannau, yn ogystal â darparu dangosyddion allweddol ar lefel Cymru y gallai'r holl sefydliadau a chyrff eu mabwysiadu.

### **5. Eich enw/enw eich sefydliad a'r cyfeiriad (post/e-bost)**

[Rosalind.owen@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:Rosalind.owen@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

Roz Owen

Cyfoeth Naturiol Cymru

Adeilad Llywodraeth Cymru, Rhodfa Padarn, Aberystwyth,

SY23 3UR

**6. Rwyf yn (ticiwch un yn unig):**

Glaf neu'n gyn-glaf	
Aelod o'r teulu neu'n ofalwr	
Aelod o'r cyhoedd	
Aelod o staff y GIG	
Sefydliad â diddordeb yn y gwasanaeth iechyd	<b>ydw</b>
Sefydliad cymorth	
Sefydliad cyfreithiol	
Arall	

Diolch am roi o'ch amser i ddarllen y ddogfen hon.